# Hysbyseb Swydd a Disgrifiad Swydd

Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales

**RHEOLWR POLISI AC EIRIOLAETH (CYMRU)**
**Lleoliad: Gweithio hybrid gyda theithio rheolaidd i lefydd gwaith eraill gan gynnwys Cymru**
**Cyflog: hyd at £40,000**
**Buddion: Yswiriant meddygol preifat, cynllun cerbydau trydan i staff, pensiwn hael a hawl i wyliau blynyddol**
**Llawn amser: 35 awr yr wythnos**
**Contract parhaol**

Rydym yn chwilio am unigolyn llawn cymhelliant i weithio mewn tîm profiadol sy'n ceisio adfer byd natur yng Nghymru. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad mewn eiriolaeth wleidyddol a dylanwadu, gydag angerdd dros fyd natur ac ysbryd entrepreneuraidd i gefnogi gwaith Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

Mae byd cadwraeth natur yn newid. Yn wyneb yr argyfyngau natur a hinsawdd, nid yw'n ddigon bellach dim ond cynnal neu wella cynefinoedd presennol; yn hytrach, rhaid i ni edrych ar adfer byd natur ar raddfa ac ar gyflymder. I ateb yr her hon, mae'n rhaid i ni sicrhau bod deddfwriaeth yn cydnabod yr argyfwng natur ac yn ceisio ymyriadau brys. Bydd y swydd hon yn gweithio ochr yn ochr â thîm Ymddiriedolaethau Natur Cymru i geisio gweithredu gan bartneriaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Uwch Weision Sifil, arweinwyr busnes a phobl sy'n gwneud penderfyniadau i gefnogi adferiad byd natur a gwella gwydnwch mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.

Drwy weithio gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru a'r mudiad ehangach o 46 o Ymddiriedolaethau Natur yn y DU, bydd y swydd yn cyfrannu meddwl arloesol a blaengar i ddatblygu'r meddwl ar y cyd i gyflymu adferiad byd natur. Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn bartner uchel ei barch eisoes gyda chysylltiadau rhagorol â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol. Bydd y swydd yn datblygu'r perthnasoedd hyn gydag Ymddiriedolaethau Natur lleol i osod a hyrwyddo ein gwaith er mwyn galluogi mwy o effaith.

**Pwy ydym ni**

Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru (YNC) yn cynrychioli'r pum Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru – Gwent, Sir Drefaldwyn, Gogledd Cymru, Sir Faesyfed a De a Gorllewin Cymru gan gydweithio mewn partneriaeth i gyflawni nodau cyffredin. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru gyda'i gilydd yn siarad ar ran mwy na 34,000 o aelodau ac yn rheoli mwy na 200 o warchodfeydd natur, sy'n cwmpasu mwy nag 8,000 hectar o gynefinoedd bywyd gwyllt rhagorol, o arfordir garw i hafanau bywyd gwyllt trefol. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru yn ceisio byd lle mae natur yn adfer gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol. Rydym yn credu bod byd natur yn chwarae rhan ganolog wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang ac yn siarad â llais beiddgar dros fyd natur a llefydd gwyllt ar y tir ac yn y môr.

Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT) yw'r elusen ganolog sy'n cefnogi'r ffederasiwn o 46 o Ymddiriedolaethau Natur annibynnol sy'n gweithio dros adferiad byd natur ledled y DU ac ar Ynysoedd Alderney a Manaw. Gweledigaeth yr Ymddiriedolaethau Natur yw byd naturiol ffyniannus, gyda bywyd gwyllt toreithiog a chynefinoedd naturiol iach sy'n chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phawb wedi'u hysbrydoli i weithredu dros adferiad byd natur.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn fudiad ar lawr gwlad o bobl o ystod eang o gefndiroedd sy'n credu bod arnom ni angen byd natur a bod byd natur ein hangen ni. Mae gennym ni fwy na 944,000 o aelodau, mwy na 38,000 o wirfoddolwyr, 3,600 o staff a 600 o ymddiriedolwyr. Mae

46 o Ymddiriedolaethau Natur unigol, pob un ohonynt yn elusen annibynnol ar gyfer ardal benodol gyda'i hunaniaeth gyfreithiol ei hun, wedi'i ffurfio gan grwpiau o bobl yn dod at ei gilydd ac yn gweithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol, gan ddechrau lle maen nhw'n byw ac yn gweithio.

Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn rhan o ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur ac yn aelod corfforaethol o Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur, elusen gofrestredig yn ei rhinwedd ei hun a sefydlwyd yn 1912 ac un o aelodau sefydlu IUCN - yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Gyda'i gilydd, mae'r ffederasiwn yma o 47 o elusennau yn cael ei adnabod fel yr Ymddiriedolaethau Natur.

Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn hollbwysig wrth benderfynu pa fath o fyd rydym ni i gyd yn byw ynddo. Mae angen i ni wyrdroi colli bywyd gwyllt ar frys a rhoi byd natur mewn adferiad ar raddfa fawr os ydym ni am atal trychineb hinsawdd ac ecolegol. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am newidiadau mawr a beiddgar yn y ffordd y mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio, yn enwedig o ran y ffordd rydym yn ysgogi eraill ac yn eu cefnogi i drefnu yn eu cymunedau eu hunain.

**Amdanoch chi**

Bydd angen i chi ddeall y cyd-destun gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y mae sector cadwraeth natur Cymru a'r DU yn gweithredu ynddo. Gyda'r ddealltwriaeth honno, byddwch yn gallu defnyddio eich profiad uniongyrchol o eiriolaeth wleidyddol a dylanwadu yn ogystal â sgiliau hwyluso i helpu Ymddiriedolaethau Natur Cymru i frwydro yn erbyn yr argyfwng natur.

Byddwch yn drefnus iawn – gan flaenoriaethu eich amser a’ch baich gwaith yn effeithiol. Byddwch yn gallu defnyddio TGCh yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd eich agwedd ddymunol yn eich galluogi i weithio gyda phawb, gan feithrin cydweithredu a phartneriaethau ar draws yr Ymddiriedolaethau Natur a gyda llawer o randdeiliaid gwahanol.

Bydd eich gwybodaeth am adfer byd natur a thueddiadau'r dyfodol, ynghyd â deddfwriaeth a pholisi amgylcheddol perthnasol, yn eich gwneud yn eiriolwr allweddol yn sector amgylcheddol Cymru. Byddwch yn dangos sut mae’r Ymddiriedolaethau Natur yn siarad gyda llais beiddgar a hyderus dros fyd natur ac, wrth wneud hynny, yn ysbrydoli partneriaid ac unigolion i gymryd camau ystyrlon dros fyd natur.

**Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gwerthfawrogi angerdd, parch, ymddiriedaeth, integriti, ymgyrchu pragmatig a chryfder mewn amrywiaeth. Er ein bod yn angerddol wrth hyrwyddo ein hamcanion, nid ydym yn feirniadol ac rydym yn gynhwysol. Rydym yn annog ceisiadau yn benodol gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein sector, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifol a phobl ag anableddau. Rydym wedi ymrwymo i greu mudiad sydd wir yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau a hunaniaethau unigol.**

**Mae Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT) yn cymryd ein cyfrifoldebau diogelu o ddifrif. Cliciwch yma i ddarllen ein datganiad ymrwymiad. Mae Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sydd mewn perygl. Ar gyfer swyddi perthnasol, rhaid i ymgeiswyr fod yn fodlon cael archwiliadau gyda chyn-gyflogwyr a’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y lefel gymwys.**

**Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfweliad i unrhyw un ag anabledd sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Rhowch wybod**

**i ni os oes arnoch chi angen unrhyw addasiadau i wneud ein proses recriwtio yn fwy hygyrch.**

**Mae'r RSWT wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ei staff drwy ei haddewid recriwtio Chwarae Teg a bydd yn rhoi unrhyw ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd drwodd i'r cam nesaf yn y recriwtio.**

**Dylech fod yn ymwybodol na fyddwn yn derbyn ceisiadau efallai os oes gennym reswm i gredu eu bod wedi'u cynhyrchu'n gyfan gwbl gan ddefnyddio adnoddau AI.**

**Dyddiad Cau: 3 Awst 2025**
**Cyfweliad Cyntaf: 13 Awst 2025**
**Ail Gyfweliad: 19 Awst 2025**

**RHEOLWR POLISI AC EIRIOLAETH (CYMRU)**
**DISGRIFIAD SWYDD**

**MANYLION Y SWYDD**

| | |
|---|---|
| **Tîm:** | **Ymddiriedolaethau Natur Cymru** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio hybrid gyda theithio rheolaidd i lefydd gwaith eraill gan gynnwys Cymru** |
| **Yn atebol i:** | **Cyfarwyddwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru** |

**PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD**

- **Lleoli Ymddiriedolaethau Natur Cymru fel prif ysgogwyr ac arweinwyr newid.**
- **Ysbrydoli cydweithwyr drwy ddatblygu perthnasoedd gwaith gydag Ymddiriedolaethau Natur lleol ar gyfleoedd eiriolaeth wleidyddol.**
- **Meithrin ymwybyddiaeth well ymhlith y cyhoedd, pobl sy'n gwneud penderfyniadau a busnesau o'r angen brys am newid i frwydro yn erbyn yr argyfyngau natur a hinsawdd.**

**PRIF GYFRIFOLDEBAU**
**Lleoli Ymddiriedolaethau Natur Cymru fel prif ysgogwyr ac arweinwyr newid**

- Cynnal perthnasoedd presennol a datblygu cysylltiadau newydd gyda dylanwadwyr allweddol, gan gynnwys Aelodau'r Senedd, Uwch Weision Sifil, cydweithwyr yn yr Ymddiriedolaethau Natur a chynrychiolwyr rhanddeiliaid.
- Datblygu ac arwain rhaglen eiriolaeth i bwyso am ddeddfwriaeth gref i sbarduno symudiad cyflym tuag at adferiad natur. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau fel briffiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cyhoeddiadau a digwyddiadau yn y Senedd.
- Dylanwadu ar bolisïau perthnasol sefydliadau eraill, a pholisi a deddfwriaeth y llywodraeth.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn cyfarfodydd a chynnal enw da'r sefydliad drwy drafodaethau a allai fod yn anodd ac yn heriol.
- Cynrychioli'r Ymddiriedolaethau Natur ar weithgorau ac is-grwpiau perthnasol, a ffurfio partneriaethau i sicrhau'r dylanwad gorau posib dros faterion allweddol. Bydd disgwyl i chi ddirprwyo ar ran Cyfarwyddwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru pan fo angen.
- Gweithio'n greadigol i hyrwyddo proffil gwaith adfer natur yr Ymddiriedolaethau Natur drwy ddatblygu negeseuon allanol ar y cyd â chydweithwyr.
- Gweithredu fel llysgennad a llefarydd ar ran Ymddiriedolaethau Natur Cymru ar adferiad natur. Mae'r rôl yn gofyn am waith rheolaidd ar y cyfryngau, gan gynnwys cyfweliadau ar radio a theledu cenedlaethol.

**Ysbrydoli cydweithwyr drwy ddatblygu perthnasoedd gwaith gydag Ymddiriedolaethau Natur lleol ar gyfleoedd eiriolaeth wleidyddol.**

- Meithrin ymwybyddiaeth a gwybodaeth am bolisi a materion cysylltiedig gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru drwy sicrhau bod deunyddiau gwybodaeth, diweddariadau a briffiau'n cael eu cynhyrchu a thrwy ddarparu cyngor, gweminarau a gweithdai.
- Sefydlu cymuned ymarfer weithredol o amgylch meysydd eiriolaeth allweddol a hyrwyddo a hwyluso llif gwybodaeth a chyfnewid barn o amgylch Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.
- Ymgynghori â chydweithwyr mewnol, partneriaid ac arbenigwyr eraill i sicrhau datblygiad polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael eu llywio gan amrywiaeth briodol o safbwyntiau.

- Ymgysylltu ag Ymddiriedolaethau Natur unigol a sefydliadau eraill i nodi, casglu a hyrwyddo astudiaethau achos sy'n ymwneud ag adfer byd natur a cheisio cyfleoedd ar y cyfryngau i hyrwyddo'r rhain.
- Cydlynu a hwyluso datblygiad polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gweithgarwch cysylltiedig gyda chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaethau Natur.

**Meithrin ymwybyddiaeth well ymhlith y cyhoedd, pobl sy'n gwneud penderfyniadau a busnesau o'r angen brys am newid i frwydro yn erbyn yr argyfyngau natur a hinsawdd.**

- Datblygu ac arwain rhaglen eiriolaeth i bwyso am ddeddfwriaeth gref i sbarduno symud cyflym tuag at adferiad natur. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau fel briffiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, olrhain polisi, ymatebion i ymgynghoriadau, cyfarfodydd a digwyddiadau yn y Senedd.
- Ceisio a datblygu cyfleoedd i hyrwyddo adferiad byd natur ar lefel uchel gyda chynulleidfaoedd allanol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, sefydliadau partner a chynrychiolwyr cymunedau ffermio a pherchnogion tir.
- Cynhyrchu deunyddiau cyfarwyddyd dylanwadol ar feysydd polisi allweddol gan gynnwys ffermio, defnydd tir a materion tir cysylltiedig i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol.
- Datblygu ffyrdd newydd arloesol a chreadigol o ddatblygu perthnasoedd gwaith gydag Aelodau'r Senedd a'u staff i ddylanwadu ar ddadleuon, ymgynghoriadau ac ymholiadau pwyllgorau'r Senedd.
- Cydweithredu â chydweithwyr i ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd gwleidyddol proffil uchel i gefnogi ein heiriolaeth, i ddangos cefnogaeth gref i weithredu.
- Gyda chydweithwyr, creu mwy o ymwybyddiaeth o botensial cyllid gwyrdd i alluogi adferiad byd natur.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac felly dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt weithredu'n broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y'u nodir yn llawlyfr y staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, pennu a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'allu gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, menter, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

Ymddiriedolaethau Natur Cymru Wildlife Trusts Wales

**RHEOLWR POLISI AC EIRIOLAETH (CYMRU)**
**MANYLEB Y PERSON**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Rhinweddau Personol** | | |
| Agwedd ddiplomatig gyda'r gallu i weithio gydag ystod eang o bartneriaid o wahanol sectorau. | ✓ | |
| Llawn cymhelliant ac yn broffesiynol gyda safonau gwaith uchel. | ✓ | |
| Gweithio ar y cyd, hwyluso sgyrsiau a herio'n adeiladol i gyrraedd consensws. | | ✓ |
| Herio'r ffordd y mae pethau wedi cael eu gwneud erioed, gan ddarparu dewisiadau amgen a dangos beth sy'n bosibl er mwyn cyflawni newid. | | ✓ |
| **Cymwyseddau Allweddol** | | |
| Effeithiol a dylanwadol mewn cyswllt lefel uchel gyda phobl sy’n gwneud penderfyniadau gan gynnwys cydweithwyr, gweision sifil a phartneriaid. | ✓ | |
| Rhwydweithio a meithrin perthnasoedd gydag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys gweision sifil, rheolwyr tir, cyllidwyr a busnesau. | ✓ | |
| Hyderus ac ysbrydoledig wrth gyfathrebu gwybodaeth polisi i'r cyhoedd a'r cyfryngau, gan gynnwys gwneud cyfweliadau gyda’r cyfryngau a chymryd rhan mewn trafodaethau panel. | ✓ | |
| Cynllunio, ysgrifennu a chyflwyno dogfennau i'w cyhoeddi. | | ✓ |
| **Profiad** | | |
| Profiad sylweddol o weithio ar faterion natur strategol ar lefelau cenedlaethol a lleol. | ✓ | |
| Gweithio gyda sefydliadau’r sector cyhoeddus a gwirfoddol, gan gynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol. | | ✓ |
| Datblygu polisi cadwraeth natur a deunyddiau eiriolaeth. | ✓ | |
| Datblygu a chyflwyno rhaglenni eiriolaeth llwyddiannus gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli i gyflawni newid. | | ✓ |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | |
| Dealltwriaeth ddofn o faterion cadwraeth natur a dulliau adfer natur, gan gynnwys tueddiadau'r dyfodol. | ✓ | |
| Trafod, dylanwadu a rheoli gwrthdaro. | ✓ | |
| Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol gyda'r gallu i lunio deunydd cyfathrebu clir, cryno, heb jargon ac ysbrydoledig. | | ✓ |
| Dealltwriaeth o ddiwylliant ac iaith Cymru. | | ✓ |